CONSULTANCY
TRAINING
SUPPORT

Blas ar :

Reoli prosiect

Dr. John R. Thomas

Rheoli Prosiect Effeithiol

Rhaid i fwyafrif o reolwyr fod yn gyfrifol am brosiectau.

Gall y rhain amrywio o drefnu cyfres o weithgareddau gymharol syml hyd at brosiectau cymhleth sy'n costio miliynau ac yn effeithio ar lawer o bobl.

Beth bynnag, mae yna rai nodweddion sy'n gyffredin iddynt i gyd.

Yn y cwrs yma byddwn yn cyflwyno'r nodweddion hyn ac yn dangos sut i gymeryd 'golwg hofrennydd' o'r prosiect.

Pwysleisir bod rhaid rheoli'r broses sy‘n gysylltiedig â'r prosiect.

Rhai o'r pynciau y byddwn yn eu trafod…

1. Beth yw prosiect?
2. Edrych yn fanwl ar y broses o reoli prosiect.
3. Pwysigrwydd cynllunio effeithiol.
4. Rôl y rheolwr prosiect.
5. Cyfrifoldebau'r tim sy'n gysylltiedig â'r prosiect.
6. Gwleidyddiaeth rheoli prosiect.
7. Technegau rheoli prosiect.
8. Gwneud i'r peth ddigwydd.
9. Technegau ar gyfer mesur ffyniant.
10. Pwysigrwydd datblygu strategaeth
11. Hyfforddi perthnasol.

T: 01792 863514 M: 07900982524 W: www.drjrt.com

Beth yw prosiect . . .

Trefniant manwl o gyfres o weithgareddau sydd eu hangen er mwyn trawsnewid cyfres o amcanion mewn i realiti.

Ddrwy ddarparu yr adnoddau angenrheidiol pan a phryd bydd eu hangen.

Gyda'r amcan o gwblhau tasg:

- **I safon penodedig.**
- **Ar amser.**
- **Yn ôl y Cyllid.**

Beth dylid ei ystyried tra'n Cynllunio Prosiect?

1. Beth yw amcanion y prosiect?
2. Rhaid amlinellu maes y prosiect; pa ardaloedd fydd yn cael eu heffeithio?
3. Pa offer/gwasanaethau a effeithir?
4. Pwy fydd yn rheoli'r prosiect ? :oes llinell o gyfrifoldebau?
5. Amserlen ar gyfer y prosiect.
6. Pa adnoddau allanol fydd eu hangen?
7. Asesiad risg : ymhle mae'r prosiect yn fregus (gwendidau) .
8. Cyllid : sut fydd hyn yn cael ei neilltio a'i reoli?
9. Sut fydd y prosiect yn cael ei reoli; pa dechnegau fydd yn cael eu defnyddio?
10. Sut fyddwn ni'n mesur llwyddiant y prosiect yn erbyn targedau ac amcanion?

Nodau ac amcanion prosiect

1. Cadarnhewch yn bendant yr hyn y mae noddwr y prosiect yn disgwyl gennych chi a gan y prosiect

2. Sut mae'r noddwr eisiau i'r canlyniadau gael eu cyflwyno?

   - Yn ystadegol?
   - Fel argymhellion?
   - Gan gynnwys dadansoddiad cost?
   - Wedi'u cyflwyno yn ysgrifenedig neu ar lafar?

3. Lluniwch restr o amcanion, gan gynnwys yr elfennau wedi'u cytuno, manyleb yr elfennau hyn a phryd maent i fod i gael eu cynnwys.

Defnyddiwch hyn i gadarnhau'ch dealltwriaeth o'r hyn a ddisgwylir gennych gan y noddwr.